



# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Caban Cegin**

**Ysgol Glancegin  
Maesgeirchen  
Bangor  
LL57 1ST**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

**08/05/2019**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

<b>Graddau</b>	<b>Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu</b>
<b>Rhagorol</b>	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Caban Cegin wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i 73 o blant dan 12 oed ac mae'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09.00 a 18:00 awr yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r safle wedi'i leoli wrth ymyl Ysgol Glancegin, Bangor. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed gan gynnwys y rheini sy'n gymwys drwy gynllun Hawl Bore Oes a Dechrau'n Deg yr Awdurdod Lleol.

Lowri Griffith yw'r Unigolyn Cyfrifol ac mae'n un o'r personau â chyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, ar y cyd â Kerry Griffiths. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

### Crynodeb

Thema	Statws
<a href="#">Llesiant</a>	Da
<a href="#">Gofal a Datblygiad</a>	Da
<a href="#">Yr Amgylchedd</a>	Da
<a href="#">Arwain a Rheoli</a>	Da

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'u ffrindiau a'r staff. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maen yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol a diddorol i'r plant er mwyn hybu eu datblygiad yn gyffredinol, ac yn rhoi pwyslais mawr ar hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac yn lân ac mae'r ardaloedd sydd o ddiddordeb wedi'u gosod yn dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu tîm o staff sydd â rolau a chyfrifoldebau clir. Yn gyffredinol, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o sut i reoli'r gwasanaeth ond mae angen gwneud rhywfaint o welliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau yn llawn.

## **2. Gwelliannau**

Cofrestrodd y gwasanaeth hwn ym mis Ebrill 2018 ac nid yw wedi cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r arweinwyr wedi datblygu'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored er budd y plant ers cofrestru.

## **3. Gofynion ac argymhellion**

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol gan na wnaethant ein hysbysu o newidiadau i'r staff na digwyddiadau pwysig, nid oedd ffeiliau'r staff yn gyflawn ac ni chawsant eu goruchwyllo'n unigol. Gwelsom nad oedd hyn yn effeithio ar y gofal roedd y plant yn ei dderbyn ar yr achlysur hwn felly ni wnaethom gyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Rydym wedi dwyn y meysydd hyn i'w gwella at sylw'r unigolyn cyfrifol.

Gwnaed argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu a'r amgylchedd.

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn gwneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud neu gyda phwy yr hoffent chwarae ac yn datblygu eu sgiliau annibynnol a hunangymorth yn dda.

## Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cyfathrebu'n dda ac yn gwneud dewisiadau'n hyderus am eu chwarae a'u gweithgareddau. Er enghraifft, gwnaeth rhai arbrofi gyda'r 'play dough' tra bod eraill yn mwynhau adeiladu. Roedd y plant yn gyfforddus wrth fynd at y staff i drafod pethau o ddiddordeb ac ymatebodd y staff iddynt yn gadarnhaol bob amser. Dywedodd y plant hŷn wrthym fod y staff wedi darparu'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt gan ddangos eu bod yn gwrando ar farn a syniadau'r plant. Aeth y plant i nôl yr adnoddau o'u dewis gan fod y teganau a'r cyfarpar wedi'u gosod i'w hannog i ddewis drostynt eu hunain.

Roedd y plant wedi setlo'n dda ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus ac yn hyderus i siarad â ni ac aeth y plant a oedd yn newid ystafelloedd ar ôl cinio i nôl eu cotiau a'u bagiau'n hapus cyn cael eu tywys i'w hystafell chwarae prynhawn. Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel gan fod aelod o'r staff yn rhoi sicrwydd iddynt yn syth pan oeddent yn drist ac roeddent yn hapus i ailymuno â'u ffrindiau i chwarae. Roedd y plant yn meithrin cyfeillgarwch a dywedodd un ohonynt mai dyma oedd 'my friend' yn llawn balchder, a gwenodd y ddau ohonynt at ei gilydd cyn rhedeg i ffwrdd i chwarae. Dywedodd y plant hŷn wrthym y gallent fynd at unrhyw aelod o'r staff os oeddent yn poeni ac roedd y staff bob amser yn parchu eu preifatrwydd. Er enghraifft, os oeddent am drafod unrhyw beth yn breifat, gallent fynd i ardal y dderbynfa fel na allai'r plant eraill glywed. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod eu gwaith crefft wedi'i arddangos yn eu hystafelloedd chwarae.

Roedd y plant yn dysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol yn llwyddiannus, er enghraifft gwnaethant gymryd eu tro wrth chwarae a defnyddio cwrteisi da, gan ddweud os gwelwch yn dda a diolch. Gwrandawodd y plant i gyfarwyddiadau'n dda ac roeddent yn hapus i godi'r propiau gwahanol yn ystod amser canu pan ofynnodd y staff iddynt wneud hynny. Eglurodd y plant hŷn eu rheolau ymddygiad wrthym a oedd wedi'u harddangos yn eu hystafell chwarae. Gwnaethant nodi bod y rheolau yn cyd-fynd â'r rheolau yn yr ysgol felly roeddent yn eu hadnabod yn dda.

Roedd y plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu a arweiniwyd ganddyn nhw a'r oedolion. Roedd y plant iau yn edrych ymlaen i guddio o dan y parasiwt yn yr awyr agored tra bod eu ffrindiau a'r staff yn gafael arno'n dynn gan ei bod hi'n eithaf gwyntog. Gwenodd

y plant cyn ysgol yn braf yn ystod amser cylch pan ddangosodd y staff eu lluniau o ddeinosoriaid a gwnaethant gynnal eu diddordeb yn ystod y prynhawn â gêm bingo deinosoriaid. Roeddent yn awyddus i gwblhau eu bwrdd bingo wrth chwarae'r gêm er mwyn dysgu i gyfrif a nodi'r lliwiau. Gwnaeth y plant hŷn greu dyluniadau a phatrymau gwahanol gyda gleiniau 'hama' ac roeddent yn hapus gyda'u hymdrechion i greu tŵr uchel iawn. Ymunodd y plant â chaneuon a symudiadau gwahanol yn llawn cyffro a gwnaethant wrando ar stori yn astud.

Roedd y plant yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn dysgu gwahanol sgiliau. Er enghraifft, gwnaethant olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chawsant sawl cyfle i ddatblygu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr agored. Dilynodd y plant eu diddordebau eu hunain ac fe'u clywsom yn creu straeon wrth esgus bod deinosor tegan wedi 'dianc' ac roedd nifer o'r plant yn mwynhau paratoi prydau a diodydd ar ein cyfer yn y gornel gartref. Roedd y plant yn dysgu am iechyd da drwy'r cyfleoedd i frwsio eu dannedd a bwyta byrbrydau maethlon.

## 2. Gofal a Datblygiad

Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn deall polisiau'r gwasanaeth ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac maent yn eu dilyn. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes a gofalgar â'r plant ac maent yn darparu dewis amrywiol o gyfleoedd chwarae a dysgu i hyrwyddo datblygiad cyffredinol pob plentyn. Mae'r staff yn hybu gweithredoedd cadarnhaol yn llwyddiannus; maent yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y staff systemau cadarn sefydledig a oedd yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Gwnaethom drafod y polisi diogelu gyda'r staff a wnaeth egluro'r hyn y byddant yn ei wneud os byddant yn poeni am blentyn. Dilynodd y staff weithdrefnau'r gwasanaeth mewn perthynas â chofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhieni lofnodi i gydnabod yr hyn a gofnodwyd ar ddiwrnod y digwyddiad a gosododd y staff slipiau damweiniau ym mag y plant ar gyfer y rhieni nad oeddent yn gallu casglu eu plant eu hunain. Er bod y weithdrefn hon yn hysbysu'r rhieni o anaf ar ddiwrnod y digwyddiad, nid oedd y slip damweiniau yn cofnodi'r holl fanylion am y ddamwain yn glir. Roedd y staff yn meddu ar dystysgrifau Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol a gallent reoli mân anafiadau ac roeddent yn gwybod beth i'w wneud pe byddai angen cymryd unrhyw gamau ar frys. Roedd y staff yn hybu arferion iach gan ddarparu byrbrydau a diodydd maethlon a sicrhau bod y plant yn treulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd.

Roedd y staff yn hyrwyddo ac yn dilyn polisi'r gwasanaeth yn gyson er mwyn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol. Roedd y strategaethau i dynnu sylw'r plant yn ystod amser cylch yn effeithiol iawn gan fod y plant yn stopio siarad ac yn gwrandao ar yr hyn a ddywedwyd. Clywsom y staff yn annog y plant i rannu a gwnaethant eu canmol yn gyson am wneud rhywbeth yn dda, ar ôl dangos caredigrwydd i ffrind neu helpu pan ofynnwyd iddynt wneud hynny. Roedd yr arferion dyddiol sefydledig yn cadw'r plant yn brysur ac felly roedd y sesiynau chwarae'n cael eu rhedeg yn ddidrafferth. Sicrhaodd y staff fod y plant hŷn yn rhan o'r broses o greu eu rheolau ymddygiad eu hunain a chytunodd y ddwy ochr arnynt a gwnaethant sicrhau bod pawb yn eu deall. Roedd y staff yn fodolau rôl da, ac yn dangos cynhesrwydd a hoffter gwirioneddol tuag at y plant, a adlewyrchwyd yn y ffordd roedd y plant yn rhyngweithio â'i gilydd a'r staff.

Roedd y staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant a oedd yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth o sgiliau. Drwy drafod â'r staff, gwnaethom ddysgu eu bod yn gyfarwydd ag anghenion a chamau datblygu'r plant yn eu gofal, ac yn seilio dysgu'r plant ar eu cynnydd ers iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Gwnaethant roi gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer gofalu am y plant sydd ag anghenion ychwanegol,



gan sicrhau y caiff cynlluniau dysgu eu dilyn. Roedd ganddynt gofnodion datblygu manwl ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant a oedd yn dangos bod y staff yn defnyddio eu harsylwadau i gynllunio ar gyfer chwarae a dysgu'r plant yn y dyfodol. Sicrhaodd y staff fod y plant yn uchel eu cymhelliant a bod ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, gwnaethant gefnogi dysgu'r plant yn llawn brwdfrydedd drwy eistedd wrth eu hymyl, trafod yr hyn roeddent yn ei wneud ac ymuno â'u caneuon a'u symudiadau yn ystod amser cylch. Defnyddiodd y staff eu gwybodaeth a'u profiadau wrth gynllunio ar gyfer gweithgareddau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad y plant a sicrhau bod dysgu'n hwyl. Er enghraifft, gwnaeth y plant fwynhau eu gweithgareddau ar thema deinosoriaid. Gwnaethant ddysgu enwau'r deinosoriaid gwahanol gan gyfrif ac adnabod y lliwiau gwahanol. Roedd y staff yn hapus, yn hyderus ac wedi ymlacio; roeddent yn gweithio'n dda fel tîm, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol pob plentyn ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol y plant.

#### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plant, gan roi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Caiff gweithdrefnau da eu dilyn er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

#### Ein canfyddiadau

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y safle yn ddiogel ac roedd ganddynt weithdrefnau sefydledig i gadw'r plant yn ddiogel. Roedd system ddiogel ar waith i gyfyngu ar fynediad i'r gwasanaeth; roedd y drysau ar glo, roedd yr ardaloedd awyr agored wedi'u hamgáu ac roedd y llyfr ymwelwyr wedi'i lofnodi, sy'n golygu bod yr arweinwyr yn sicrhau na all unrhyw unigolion heb awdurdod fynd i mewn i'r safle. Roedd yr arweinwyr yn cadw asesiadau risg ysgrifenedig a oedd yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r drefn.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn ystafelloedd a benodwyd ar gyfer eu hoedran ac roedd y dair ystafell chwarae wedi'u lleoli mewn cabanau a oedd yn agos at ei gilydd. Roedd gan y tri chaban gyfleusterau eu hunain gan gynnwys toiledau, basnau golchi dwylo ac ardal newid cewynnau. Roedd digon o le ym mhob ystafell chwarae ac roedd yr ardaloedd dysgu wedi'u gosod yn dda i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd digon o adnoddau ynddynt yn ogystal â meysydd diffiniedig ac roedd gwaith crefft y plant wedi'i arddangos, gan olygu bod yr amgylchedd yn gartrefol ar eu cyfer. Roedd yr ardaloedd amgaeedig yn darparu amgylchedd cyfoethog i'r plant ddysgu drwy chwarae, megis reidio beiciau, chwarae gyda dŵr, y gegin fwd a chwarae dychmygus. Roedd yr amgylchedd cyfan yn olau, yn lân ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant archwilio ac yn eu hannog i ddysgu drwy chwarae.

Roed yr arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Roedd y dewis o adnoddau yn ysgogi ac yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, roedd y plant yn datblygu eu sgiliau cydbwysedd a phedlo ar y teganau reidio yn yr awyr agored; roeddent wedi plannu ac yn tyfu perlaysiau gwahanol ac yn datblygu eu sgiliau chwarae dychmygus drwy wisgo i fyny neu chwarae yn y gornel gartref. Roedd yr adnoddau yn amrywiol ac yn ysgogol a chafodd y plant gymorth i ddeall elfennau o ddiwyllianau a gwyliau gwahanol, megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Sicrhaodd yr arweinwyr fod gan y plant amrywiaeth o adnoddau'r cartref ac adnoddau naturiol y gellid eu defnyddio mewn gwahanol weithgareddau, megis sosbenni yn y gegin fwd a darnau bach o lechi y gallai'r tryciau a'r palwyr eu codi a'u cario. Roedd y cyfarpar yn addas ar gyfer oedran y plant ar y

cyfan. Er enghraifft, dywedodd y plant hŷn wrthym y gallent eistedd yn gyfforddus ar y soffas yn eu hystafell chwarae ond nid oedd eu cadeiriau a'u byrddau yn addas i bawb gan eu bod yn rhy isel.

## 4. Arwain a Rheoli

Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn deall eu rolau a'r hyn sydd ei angen er mwyn rheoli'r gwasanaeth ond mae angen gwella rhai agweddau er mwyn cyrraedd y safonau a bodloni'r rheoliadau yn llawn. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff ac yn eu hannog i ddilyn cyrsiau sy'n berthnasol i ofal y plant. Mae ganddynt bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, yr ysgol, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhywfaint o systemau ar waith i fonitro'r gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn deall eu rolau i reoli'r gwasanaeth ar y cyfan. Gwnaethant sicrhau bod datganiad o ddiben y gwasanaeth yn gywir a bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plant. Roedd yr arweinwyr yn cefnogi'r staff yn weithredol drwy gyfarfod â nhw fel grŵp bob wythnos i rannu gwybodaeth a thrafod amserlen wythnosol o ddigwyddiadau, gan sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Roedd yr holl waith papur yn ddwyieithog ac roedd y staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu bod yr arweinwyr yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg i'r rhieni a'r plant. Sicrhaodd yr arweinwyr fod yr holl gofnodion angenrheidiol yn cael eu cadw ac roedd y staff yn cadw cofnod o'u presenoldeb nhw a'r plant yn ddyddiol. Roedd yr arweinwyr wedi ein hysbysu o'r newid yn oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal yn y gwasanaeth ond ni wnaethant nodi digwyddiadau pwysig a'r newidiadau ymhlith y staff.

Roedd yr arweinwyr yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn datblygu'r gwasanaeth. Er enghraifft, roeddent wedi datblygu'r ardaloedd yn yr awyr agored ers cofrestru er budd y plant. Roedd yr arweinwyr wedi creu dogfen hunanasesiad parhaus ar gyfer rhan o'r gwasanaeth ond roedd angen ei datblygu ymhellach i gwmpasu'r gwasanaeth cyfan. Dywedodd y plant hŷn wrthym fod y staff wedi ystyried eu safbwyntiau mewn perthynas ag adnoddau gwahanol gan eu bod wedi mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Roedd y rhieni wedi derbyn holiaduron i roi adborth, a oedd yn rhoi cyfle i'r arweinwyr fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Roedd yr arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac amserol ar y cyfan ond nid oedd hyn yn wir mewn perthynas â ffeiliau tri aelod o'r staff a welsom. Er bod gan y tri ohonynt dystysgrifau cyfredol â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nid oeddent wedi cwblhau pob un o'r gwiriadau addasrwydd gofynnol eto. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y staff yn cael eu harfarnu'n flynyddol ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi derbyn goruchwyliaeth unigol. Roedd yr arweinwyr yn cefnogi ac yn annog y staff i dderbyn hyfforddiant a dilyn cyrsiau ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Peditrig. Dywedodd y staff wrthym y gallant fynd at yr arweinwyr i drafod materion pwysig ar unrhyw adeg ac y byddent bob amser yn gwrando arnynt ac yn mynd i'r afael â'r materion pwysig.

Roedd yr arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned. Roedd y rhieni yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am eu plant cyn dechrau yn y lleoliad a sicrhodd yr arweinwyr eu bod yn rhannu'r manylion pwysig hyn â'r staff mewn perthynas ag anghenion a dewisiadau pob plentyn. Roedd yr arweinwyr yn gwerthfawrogi'r adborth gan athro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol a'r swyddogion Dechrau'n Deg, gan ei fod yn arwain at welliannau mewn perthynas â rhoi cynllun Chwarae a Dysgu'r Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg ar waith. Cydweithiodd yr arweinwyr yn agos gyda'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod y plant sydd ag anghenion ychwanegol yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Sicrhodd yr arweinwyr fod eu partneriaeth â'r ysgol gynradd leol yn parhau er budd y plant. Er enghraifft, roedd y plant a oedd ar fin dechrau yn yr ysgol yn derbyn sesiynau rhagflas yn yr ysgol gynradd ymlaen llaw. Roedd yr arweinwyr hefyd yn darparu gwybodaeth ffurfiol am ddatblygiad y plant i'r athrawon cyn diwedd tymor yr haf. Dywedodd y plant hŷn wrthym eu bod yn edrych ymlaen at y daith i'r siop leol i brynu hufen iâ a drefnwyd ar eu cyfer a dangosodd hyn fod yr arweinwyr yn chwilio am ffyrdd o wneud i'r plant deimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.

## **5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol**

Dim, arolygiad cyntaf

### **5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn**

Gwnaethom hysbysu'r person â chyfrifoldeb nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Fodd bynnag, gan na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth fod llesiant y plant yn cael ei effeithio ar yr achlysur hwn, ni wnaethom gyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfio ond mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010** – rhaid i ffeiliau'r staff gynnwys y gwiriadau addasrwydd perthnasol a dylid eu rhoi ar waith cyn iddynt ddechrau gweithio;

**Rheoliad 29 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010** - rhaid i'r holl staff gael eu goruchwylio'n unigol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, a

**Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010** – rhaid i ni gael gwybod am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth o fewn 14 diwrnod o weithredu'r newid, gan gynnwys newidiadau i staff neu unrhyw ddigwyddiad pwysig.

### **5.3 Argymhellion ar gyfer gwella**

Gallai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- Cwblhau ffurflenni cofnodi damweiniau sefydledig y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gan yr holl rieni ddealltwriaeth glir o anaf eu plentyn;
- datblygu adolygiad blynyddol y gwasanaeth o ansawdd y gofal i gynnwys y gwasanaeth cyfan, a
- darparu byrddau a chadeiriau i'r plant hŷn sy'n addas ar gyfer eu hoedran.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth hwn yn ddirybudd ar 08 Mai 2019 rhwng 12.00 a 17.15.

Gwnaethom y canlynol;

- ystyried adroddiad cofrestru'r gwasanaeth cyn cynllunio'r arolygiad;
- archwilio sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, y polisïau amddiffyn plant, cwynion a rheoli ymddygiad;
- craffu ar ffeiliau tri aelod o'r staff a ffeiliau tri phlentyn;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a gânt;
- siarad â'r plant, y person â chyfrifoldeb a'r staff, a
- darparu adborth manwl i'r personau â chyfrifoldeb ar ein canfyddiadau.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Lowri Griffith
Personau â chyfrifoldeb	Kerry Griffiths Lowri Griffith
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	73
Ystod oedran y plant	2-11 oed
Oriau agor	09.00 - 18.00, dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Cofrestrwyd ym mis Ebrill 2018
Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn	08 Mai 2019
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Ydy Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol:	